# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD) | | SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD) |
| DYDD GWENER, 18 TACHWEDD 2016 am 10.30 y bore | | FRIDAY, 18 NOVEMEBER, 2016, at 10:30 a.m. |
| YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON | | GLYDER FAWR ROOM, PENRALLT OFFICES, CAERNARFON |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

Cynghorwyr /Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*, E. Caerwyn Roberts Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M. Huws *(Cadeirydd /Chair)*, Gwilym O. Jones, R. Meirion Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales
Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church
Eglwysi Rhyddion/Free Churches

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 23 MEDI, 2016** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2016.

3 **YR UNED DDARPARU AAA** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol ar waith yr Uned Ddarparu AAA.

4 **RHEOLAETH Y CYD-BWYLLGOR**

Ystyried trefniadau ar gyfer rheolaeth dydd i ddydd y Cyd-Bwyllgor.

5 **DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYD-BWYLLGOR**

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

*(Adroddiad i ddilyn)*

6 **DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD**

Derbyn diweddariad ar lafar ar y sefyllfa mewn perthynas â gweithredu Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.

7 **CYFARFOD NESAF**

10:30 y. b. ddydd Gwener, 17 Mawrth, 2017 yn Llangefni.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Cynghorwyr E.Caerwyn Roberts, Eirwyn Williams<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br><br>Cynghorwyr Gwilym O.Jones, R. Meirion Jones |
| **WRTH LAW**: | Prif Seicolegydd Addysgol (Mr Gareth Payne)<br>Uwch Reolydd Cynhwysiad (Cyngor Gwynedd) (Mr Gwern ap Rhisiart)<br>Swyddog Addysg ADY (Cyngor Sir Ynys Môn) (Einir Thomas)<br>Swyddog Pwyllgor (Cyngor Sir Ynys Môn) (Ann Holmes) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Annwen Hughes, Elin Walker Jones (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg Cyngor Sir Ynys Môn) |

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 24 MEHEFIN 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2016 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

### 3. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AAA AC ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ALLANOL

Adroddwyd nad oedd gan yr Archwiliwr Allanol unrhyw newidiadau o bwys i gyfrifon y Cyd-Bwyllgor i adrodd amdanynt ac felly nid oedd rheswm dros eu hail-gyflwyno gerbron y cyfarfod heddiw.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth.**

### 4. DIWEDDARIAD AR DREFNIADAU NEWYDD Y GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIAD YNG NGWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd dogfennaeth Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn fel y'i chyflwynwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod ar 13 Medi, 2016 ac i Bwyllgor Gwaith Ynys Môn yn ei gyfarfod ar 19 Medi, 2016.

Adroddodd Uwch Reolydd Cynhwysiad Cyngor Gwynedd bod Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod drwy brosesau democrataidd y ddwy sir ac wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn eu



DRAFT

cyfarfodydd yn gynharach yn y mis. Gan hynny fe ellir yn awr gychwyn ar y broses o roi'r strategaeth ar waith yn y ddwy sir a bydd y trafodaethau sydd wedi bod hyd yma yn canolbwyntio yn awr ar wneud hynny. Bellach, daethpwyd i gytundeb ynghylch 14 o wasanaethau gwahanol a'r rheini'n cwmpasu nifer o feysydd ar draws anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad a fydd yn dod o dan yr un to o dan y Strategaeth. Bydd y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad newydd yn cael ei letya gan Gyngor Gwynedd ond bydd y ddau gyngor yn monitro'r darpariaethau trwy fyrddau monitro ADYaCh fydd yn adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol Partneriaethau Addysg Gwynedd ac Ynys Môn fydd yn ei dro yn bwydo i mewn i gyfundrefnau craffu'r ddwy sir a'r Cabinet wedyn yng nghyswllt Cyngor Gywnedd a'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt Ynys Môn.

Dywedodd y Swyddog bod y model llywodraethiant sydd yn cael ei gynnig yn un eithaf cymhleth (Atodiad 1 yn y ddogfennaeth) a bod rhagor o waith mireinio i'w wneud arno i sicrhau bod llais aelodau etholedig yn cael ei glywed yn ddigonol drwy'r strwythur yn enwedig o ran ansawdd y ddarpariaeth. Y cam nesaf yw llythyru staff y Cyd-Bwyllgor a'r ddau awdurdod ar wahan sy'n ymwneud â'r meysydd dan sylw i'w hysbysu'n ffurfiol am ddyfodiad y drefn newydd o weithredu fydd yn di-sodli sefydliad y Cyd-Bwyllgor presennol a'r swyddi ynddo a bydd cyfnod o ymgynghori gyda staff yn dilyn hynny. Felly, mae'n bosibl y gall elfennau o'r Strategaeth newid yn sgîl y broses honno.

Ymhlith prif yrrwyr y strategaeth newydd oedd yr angen i gryfhau trefniadau monitro a chraffu gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad ar draws y ddwy sir. Mae'r darpariaethau hyn yn rhai drudfawr, ac mae angen dangos yn fwy eglur gwerth y darpariaethau, a'r gwahaniaeth maent yn ei wneud i'r sawl sy'n eu derbyn a hefyd yr effaith maent yn ei gael ar gynnydd y plant. Mae'r gyfundrefn newydd hefyd yn un y mae elfen gryfach o atebolrwydd ynddi. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn cyfarch y gofynion newydd a ddaw ar gefn Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod rhagarweiniol y bu hi a'r Is-Gadeirydd yn bresennol ynddo cyn cyfarfod ffurfiol y Cyd-Bwyllgor a dywedodd bod y cyfarfod hwnnw wedi amlygu rhai ystyriaethau y dymunai ddwyn i sylw'r Cyd-Bwyllgor a chael ei gefnogaeth yn eu cylch. Adroddodd am y prif faterion fel a ganlyn –

- Bod angen rhoi rhagor o sylw i gryfhau'r model llywodraethiant ac y dylai Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor ar ran y ddwy sir fod ynghlwm wrth y trafodaethau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gweddu ag anghenion y ddwy sir.
- Bod angen ystyried beth yw'r oblygiadau i ysgolion ac i gyrff llywodraethu a chyfathrebu'n bositif mewn perthynas â'r newidiadau.
- Bod yna beth pryder ynghylch y camau trosglwyddo; cydnabyddir bod craffu wedi bod yn elfen y gallasai'r Cyd-Bwyllgor fod wedi cryfhau arni yng nghyswllt gwerth, ansawdd a'r llwybr sy'n dod allan o wasanaethau anghenion addysgol arbennig ond ni ddeisyfir gweld gwaith y Cyd-Bwyllgor yn dod i ben yn ddi-symwth a bod rôl iddo gefnogi'r newidiadau. Yr awgrym felly yw bod y swyddogion yn edrych ar y pridoldeb o sefydlu pwyllgor cysgodol yn y cyfnod trosiannol hyd nes bod y model llywodraethiant terfynol yn ei le.
- Ei fod yn awgrym bod adroddiad blynyddol ar weithrediad y gwasanaethau o fewn y strategaeth yn cael ei gyflwyno i bwyllgorau craffu perthnasol y ddwy sir a bod hwythau wedyn yn dethol meysydd i edrych arnynt yn fanylach.
- Bod angen amlygu o fewn y strategaeth, bwysigrwydd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg sef elfen sydd wedi bod yn bwysig i' r Cyd-Bwyllgor ac un y mae wedi ymdrechu i'w hyrwyddo. Ni ddeisyfir gweld colli'r arbenigedd a'r dealltwriaeth mae'r Cyd-Bwyllgor wedi eu datblygu yn nghyfnod ei weithrediad ac mae angen sicrhau hefyd bod y tîm canolog yn parhau'n gryf yn ieithyddol.
- Bod angen rhagor o drafodaeth ynghylch y ddarpariaeth 16-25 oed fel maes nad yw'r cyfrifoldebau wedi'u gosod allan yn glir o fewn y ddeddfwriaeth newydd. Credir bod lle i bwyllgor cysgodol neu ei debyg osod cyfeiriad yn y cyswllt yma. Yn yr un modd dylid rhoi sylw i'r blynyddoedd cynnar a chredir bod angen i'r gwaith hwn gael ei arwain yn ganolog yn gychwynnol cyn ei drosglwyddo i'r ddau gyngor graffu arno ar wahan.
- Bod yn rhaid cyfleu'r neges yn glir mai'r rhesymeg tu cefn i'r newidiadau a diddymu'r Cyd-Bwyllgor yw er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth ADY a chynhwysiad ar gyfer plant a phobl ifanc y ddwy sir.

**Penderfynwyd nodi dogfennaeth y Strategaeth ADY a Chynhwysiad fel y'i chyflwynwyd ac ategu sylwadau'r Cadeirydd ynghylch yr agweddau y dymunir rhoi sylw iddynt wrth symud ymlaen.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Swyddogion i weithredu'n unol â'r pwyntiau a nodir uchod.**
- **Diweddariad ar gynnydd i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 18fed Tachwedd 2016 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Mae ychydig o anawsterau wedi bod yn y gwasanaeth hwn eleni. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth ar hyn o bryd yn absennol o'i gwaith oherwydd iechyd, ac mae un o'n swyddogion gweinyddol profiadol eraill hefyd wedi bod yn absennol ers tro. Mae hyn wedi achosi rhai anawsterau, ond mae gweddill y staff wedi llwyddo i ysgwyddo peth o'u baich ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i gwrdd â'r gofynion syd arno. Mae gennym aelod newydd i'r tîm sydd wedi ymgartrefu'n dda ac yn gwneud gwaith ardderchog.

Mae aelodau o'r tîm wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant mewn technegau Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, yn rhan o'r paratoad am y ddeddfwriaeth newydd a fydd yn disgwyl i awdurdodau addysg Cymru ddefnyddio'r technegau hyn wrth ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol plant.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Mae'r gwasanaeth athrawon arbenigol hefyd wedi mynychu cwrs deuddydd ar dechnegau Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Fel swyddogion eraill y Cyd-Bwyllgor, y seicolegwyr addysgol, byddan nhw'n cydweithio efo'n hysgolion ni i hyrwyddo'r defnydd o hyn ac yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y cynhelir y cyfarfodydd adolygu. Gwn ei bod eisoes wedi cychwyn ar y gwaith hwn.

Rydym wedi colli un aelod o'r gwasanaeth dysgu plant â nam clyw, sydd bellach wedi cychwyn gweithio mewn sir gyfagos, a rydym yn dymuno pob lwc iddi yn eu swydd newydd.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Rydym wedi derbyn aelod ychwanegol i'r tîm, yn dilyn secondiad un o'n uwch seicolegwyr i weithio ar y Strategaeth. Rydym yn gobeithio ei bod hi wedi dechrau ymgartrefu efo ni ac rydym yn sicr yn falch iawn o'i gwasanaeth.

Mae'r tîm hefyd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, ac mewn gwirionedd eisoes wedi hyfforddi yn y maes hwn. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith yn yr ysgolion. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r technegau hyn yn ceisio sicrhau bod yr unigolyn dan sylw, sef, wrth gwrs, y plentyn sydd efo Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cymryd y lle blaenllaw sy'n ddilys iddo/iddi fel canolbwynt y cyfarfod, ac yn cymryd rhan lawn ynddo. Agwedd arall o'r ffordd newydd hwn o gynnal cyfarfodydd fydd sicrhau mwy o fanylder a chysondeb ar y math a'r maint o gymorth ychwanegol mae'r plant yn ei dderbyn.

Rydym wedi parhau i gynnal gwasanaeth cefnogi ysgolion y ddau awdurdod, yn cynnwys ymwneud â phlant unigol, ymgynghori ar faterion eraill ynglŷn ag anghenion addysgol ychwanegol, a chynnal hyfforddiant o fewn ysgolion unigol ar eu cais nhw.

Gwybodaeth 2006-2016

Dyma wybodaeth o waith yr Uned Ddarparu'n cynhyrchu datganiadau dros y 10 mlynedd ddiwethaf

Mae'r nifer o ddatganiadau'n amrywio a dydy hi ddim yn glir bod hyn yn gostwng.

Nifer o ddatganiadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 34 | 45 | 39 | 45 | 43 | 28 | 15 | 45 | 38 | 58 |
| Gwynedd | 23 | 54 | 61 | 99 | 75 | 69 | 55 | 89 | 37 | 37 |
| cyfanswm | 57 | 99 | 100 | 144 | 118 | 97 | 70 | 134 | 75 | 95 |

Mae'r gwahaniaeth mewn cymhareb rhwng y ddau Awdurdod yn amrywio; roedd cyfnod pan oedd Môn yn isel ond mae Gwynedd yn is dros y ddwy flynedd dddiwethaf.

Datganiadau canran

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 60% | 45% | 39% | 31% | 36% | 29% | 21% | 34% | 51% | 61% |
| Gwynedd | 40% | 55% | 61% | 69% | 64% | 71% | 79% | 66% | 49% | 39% |

Rydym ni'n cwblhau'r rhan fwyaf o fewn y 26 wythnos statudol, os nad ydych yn ystyried oedi oherwydd disgwyl ymateb gab bobl nad ydynt yn gweithio o fewn Addysg.

O fewn 26 wythnos heb eithriadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 92% | 85% | 100% | 100% | 93% | 100% | 86% | 86% | 100% | 100% |
| Gwynedd | 100% | 90% | 89% | 98% | 98% | 97% | 93% | 96% | 100% | 89% |
| cyfartaledd | Gwynedd | 95% | Môn | 94% | | | | | | |

Rydym yn methu â chwblhau nifer sylweddol tu allan i'r 26 wythnos statudol oherwydd pobl broffesiynol tu allan i Addysg, ac efallai bod hyn yn cynyddu.

O fewn 26 wythnos yn cynnwys eithriadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 71% | 76% | 67% | 44% | 67% | 86% | 87% | 58% | 58% | 60% |
| Gwynedd | 57% | 67% | 70% | 86% | 93% | 88% | 73% | 62% | 59% | 54% |
| cyfartaledd | Gwynedd | 71% | Môn | 67% | | | | | | |

This page is intentionally left blank